# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-06-08)

**Dyddiad: 24 Ebrill 2008**
**Amser: 13:45 – 15:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Janice Gregory, Ogwr
Mike German, Dwyrain De Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgor

Claire Morris, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Michelle Matheron, Swyddog Polisi, Age Concern Cymru
John Clifford Jones, Prif Swyddog, Age Concern Gwynedd a Môn
Ana Palazon, Cyfarwyddwr, Help the Aged Cymru
Victoria Lloyd, Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Help the Aged Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd bod Mick Bates a Lorraine Barrett wedi anfon eu hymddiheuriadau. Yr oedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod yn lle Mick Bates, a Janice Gregory yn dirprwyo ar ran Lorraine Barrett.

### Eitem 2: Papur cwmpasu ar yr ymchwiliad arfaethedig i ddeiseb P-03-089 ar ysgolion cymunedol Powys

### Papur: RDC(3)-06-08 (p1)

2.1 Dywedodd y cadeirydd y byddai papur cwmpasu ynglyn â deiseb P-03-089 ar ysgolion cymunedol Powys yn cael ei ddosbarthu i Aelodau i geisio'u sylwadau erbyn dydd Gwener 2 Mai.

### Eitem 3: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig: sesiwn dystiolaeth ar bobl hyn

### Papurau: RDC(3)-06-08 (p2) a (p3)

3.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i Michelle Matheron o Age Concern Cymru, John Clifford Jones o Age Concern Gwynedd a Môn, ac Ana Palazon a Victoria Lloyd o Help the Aged Cymru, a gofynnodd iddynt siarad am yr hyn a gyflwynwyd ganddynt yn ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

3.2 Cytunodd Ana Palazon i ddarparu manylion y lleoliadau gwledig hynny lle nad oedd cynlluniau cludiant cymunedol ar waith.

### Eitem 4: Papur i'w nodi: papur gan Fforwm Pensiynwyr Cymru

### Papur: RDC(3)-06-08 (p4)

4.1 Cytunodd y pwyllgor i nodi papur gan gadeirydd Fforwm Pensiynwyr Cymru, a oedd wedi methu bod yn bresennol yn y cyfarfod.